

Trwy ebost

22/12/2017

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i BGC Castell-Nedd Port Talbot

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft. Darganfu fy nhîm bod siarad â'ch swyddogion cynorthwyol, mynychu gweithdai'r BGC a'r cyfle i fynychu cyfarfod eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn rheolaidd, wedi rhoi dealltwriaeth i ni o'r modd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel BGC; y dull yr ydych wedi ei fabwysiadu at gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion hyn a gweithredu mewn dull gwahanol. Fel y byddant wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu cyson rhyngom wedi bod yn ddefnyddiol a'i bod wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Dros y pedair wythnos ar ddeg ddiwethaf, rydych wedi bod yn datblygu'r amcanion drafft a'r themâu canlynol, ac mae'r cyngor hyn oddi wrthyf yn seiliedig arnynt:

- (Amddiffyn/diogelu) Plant yn y blynyddoedd cynnar, yn arbennig blant sydd mewn perygl o gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- (Creu) Cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, gyda ffocws arbennig ar bobl sy'n agored i niwed.
- (Annog) Heneiddio'n dda.
- (Hybu) Llesiant drwy gyfrwng y gweithle.
- Ynghyd â blaenoriaeth drawsbynciol i: Adnabod a hybu rôl seilwaith gwyrdd wrth gynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pobl Castell-nedd Port Talbot.

Fel y gwyddoch, wrth bennu eu hamcanion drafft a gweithredu i'w cyflawni, mae'n rhaid i FGCau ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer a maccsimeiddio eu cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae fy nghyngor mewn dwy ran - yn gyntaf fe'i bwriedir i'ch helpu i ystyried sut y gallech gyflawni hyn i gyd yn effeithiol. Yn ail mae'n seiliedig ar eich amcanion drafft ac yn rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos, drwy eich cynllun llesiant, eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Buaswn yn eich annog i ddarllen hwn ynghyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus iddo 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', a'ch helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio llesiant

yn barhaus. Fel y gwych, yn ddiweddar cyhoeddais ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Nid busnes-fel-arfer yw gosod amcanion a chmau. Yn y gorffennol, rydym wedi dibynnu ar themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud beth bynnag. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut', hynny yw, beth ydych yn ei wneud i gyfrannau tuag at ein gweledigaeth gyfunol o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwyllianau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol, a sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Castell-nedd Port Talbot?

Mae addasu eich dulliau o weithio yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Mae [Saerniaeth Dyfodol Cynaliadwy](#), Academi Cymru'n dweud yn glir sut mae angen i ymddygiad arweinyddion newid. Gallech ddefnyddio'r fframwaith hwn i'ch helpu i archwilio ymddygiad eich bwrdd chi eich hunan a sut y gallwch newid. Fel y cyfryw, mae angen i chi neilltuo amser a gofod i chi eich hunain fel BGC i gwestiynu a ydyw ymagweddau presennol tuag at ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau a thensiynau wrth gyflwyno pob un o'ch amcanion. Yn ymarferol, rwy'n cynghori BGCau i drefnu cyfarfod pwrpasol neu greu sesiynau ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft ar gyfer ennyn trafodaeth.

Gwn eich bod wedi bod yn cynnal gweithdai i ddwyn pobl at ei gilydd i drafod datblygu camau i gwrdd â'ch amcanion drafft. Mae angen i sesiynau tebyg yn y dyfodol ddefnyddio'r pum dull o weithio fel ffordd o herio ymagweddau'r gorffennol a'r saith nod llesiant fel fframwaith ar gyfer edrych ar y modd y gallwch gael effaith ar lawer o wahanol ffurfiau o lesiant. Mae'n rhaid i'r sesiynau hyn, a rhai'r BGC, ffocysu ar weithredu. Mae angen i gyfarfodydd fod yn fwy na thrafodaethau cwrtais os yr ydych yn mynd i fabwysiadu ymagwedd wahanol, gyda phartneriaid sy'n deall pa weithredu y maent yn gyfrifol amdano, yr ymagwedd y byddwch yn ei mabwysiadu gyda'ch gilydd a'r camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a maccsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Hoffwn ddeall beth a olyga pob amcan drafft a'r camau yr ydych yn eu gosod i Gastell-nedd Port Talbot a sut mae hyn yn ddull gwahanol o weithio o'i gymharu â'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol.

Buaswn yn eich cynghori y bydd angen i chi ddangos sut mae'r BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar y camau y byddwch yn eu



cymryd? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd arnoch eu hangen i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? I drwytho'ch gweithredu, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Oxford Martin School 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGCau yn archwilio sut y maent yn chwalu cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Roeddwn hefyd yn falch i glywed eich bod yn ystyried y gwahanol gysylltiadau rhwng strwythurau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac yn ystyried lle mae angen i'r ymyriadau mwyaf effeithiol ddigwydd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennych yn eich asesiad llesiant. Rwy'n cydnabod bod y broses hon yn gymhleth ond mae'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau hyn, sut fedr eich sefydliad gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd ar y cyd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-leoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu



cyfnewid swydd a secondiadau, ac yn bwysig, rhannu adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych wedi ystyried y manteision hyn a sut mae'r camau y byddwch yn eu cymryd yn eich symud tuag at gyflawni'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n maxsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Roeddwn yn falch i glywed bod eich trafodaethau wedi cychwyn ystyried y rhyng-gysylltu rhwng yr amcanion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n helpu i drwytho eich penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol y gallech eu cymryd a buaswn yn eich annog i barhau i wneud hyn mewn dull bwriadol ac eglur.
Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Fel BGC, ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi rhwng sefydliadau sy'n aelodau a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Roedd eich asesiad llesiant yn cynnwys ymgyfraniad llawer o bobl. Rwy'n dymuno gweld ffocws amlwg yn awr oddi wrth FGCau sy'n mynd tu hwnt i'r ymgynghori arferol a'r ymgysylltu ad hoc. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut mae trigolion yn ymgyfrannu yn natblygiad eich amcanion a'ch camau llesiant. Sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi i wella ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Mae eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed i'ch helpu i ennill y lefel hwn o gynnydd wrth i chi asesu llesiant yn eich ardal, wrth gyfosod y dystiolaeth hon i mewn i themâu lefel uchel a drafftio eich amcanion a'ch camau yn y dyfodol, ond mae'n rhaid i mi bwysleisio mae eich arweinyddiaeth chi sy'n angenrheidiol ar gyfer mabwysiadu dull newydd o weithio. Gwn eich bod wedi defnyddio'r nodau i'ch helpu i lunio eich amcanion, ond maent hefyd yno i'ch helpu i archwilio'r tensiynau a'r cyfleoedd o weithio gyda'ch gilydd i gyflawni gwell gwasanaethu cyhoeddus i Gymru.

Fel arweinyddion, rwy'n siŵr eich bod yn rhan o lawer o bartneriaethau a strwythurau, cyfarfodydd a mentrau, ond bwriedir i'r BGC fod yn gyfle ar gyfer integreiddio a chydweithio ar lefel uwch a lefel dylanwad. I greu perchnogaeth a gweithredu ar y cyd fel BGC, mae angen i chi adeiladu dealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau eich gilydd a thrafod eich cymhellion. Mae fy adroddiad 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'n awgrymu bod angen i ni roi'r gorau i edrych ar FGC fel pwyllgor ffurfiol o dan arweiniad awdurdod lleol - a'i fod yn fwy tebyg i le sy'n ennyn gweithredu, nid lle o gyflwyniadau diddorol. Dylai'r BGC fod yn ymwneud â dull newydd o weithio, nid un sy'n cael ei sbarduno gan ddiwylliant un sefydliad. Gall Cadeirydd y BGC, sut a ble mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a sut mae'r BGC yn cael ei gefnogi, i gyd newid dulliau o feddwl a chaniatáu ar gyfer her iachach i fusnes-fel-arfer.

Mae'r arweinyddiaeth hon ynghyd â gweithio mewn partneriaeth yn treiddio i holl lefelau eich sefydliadau. Mae cynrychiolaeth gyson, a sut yr ydych yn dwyn negeseuon yn ôl o'r BGC i'ch sefydliadau chi eich hunain yn hollbwysig ar gyfer adeiladu cysylltiadau ac ennyn gweithredu. Mae cyfleu i'ch uwch dimau rheoli pam mae gwaith y BGC yn bwysig a defnyddio'r cynllun llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau chi eich hunan yn hollbwysig ar gyfer creu'r newid mewn diwylliant a amlygwyd gennych yn eich trafodaethau gyda fy nhîm. Un o fy swyddogaethau i yw adnabod a lleihau rhwystrau, ond mae hyn hefyd yn wir amdanoch chithau - fel uwch arweinwyr, eich rôl chithau hefyd yw herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol a'u darbwyllo ei bod hi'n 'saff i fethu'.

Ochr yn ochr â hyn, bydd angen i chi hefyd ddangos sut mae eich sefydliadau'n cymryd pob cam rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf gan fod amcanion unigol cyrff cyhoeddus wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall bod ar FGCau a chyrrff cyhoeddus angen amser i weithio tuag at alinio, byddaf yn dymuno gweld nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono. Cefais fy nghalonogi i weld eich bod wedi cydnabod hyn ac wedi adnabod bod angen i chi ddeall partneriaethau cyfredol a threfniadau sefydliadol cyn medru gwneud rhai newidiadau. BGCau eraill sy'n ymroi i greu newid sefydliadol drwy eu hamcanion yw Torfaen, sy'n edrych ar ddatblygiadau sefydliadol yng nghyd-destun y Ddeddf, Sir Benfro, Caerffili a Chaerdydd - efallai y byddwch yn dymuno ymgysylltu'n uniongyrchol â hwy i rannu syniadau a dysgu.

Mae'n dilyn bod cydlynu'r gwaith hwn yn gofyn am gydnabyddiaeth pob un ohonoch fel aelodau'r BGC. Mae gen i ddi-ddordeb i weld sut mae gwahanol FGCau yn cael eu cynorthwyo, ac ymddengys, pan fydd gwaith yn aml-asiantaeth, ac yn cael adnoddau ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, bod cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau'n dod yn haws. Fel mewn ardaloedd eraill, mae gennych yn awr swyddog rhanbarthol i gydlynu'r gwaith hwn, sy'n gadarnhaol, ond mae rhai BGCau eisoes yn mabwysiadu trefniadau gwaith agosach, tîm rhithwir aml-asiantaeth gydag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae nifer o adnoddau ar gael a allai fod yn ddefnyddiol megis [Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change a Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability](#). Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi, pobl mewn sefyllfaoedd o arweinyddiaeth, chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen.

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd ar bob lefel gan FGCau, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu gwahanol agweddau wrth ddrafftio'u hamcanion llesiant ac y byddant yn cyflawni eu cynllun llesiant yn y cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Bydd ail ran fy nghyngor yn helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

O'r sgysiau rheolaidd yr ydych wedi eu cael gyda fy nhîm, gwn fod eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar gasgliadau eich asesiad, wedi blaenoriaethu materion drwy ymgysylltu gyda chi ac ymgysylltu ag eraill i gasglu gwybodaeth broffesiynol i ddrafftio eich amcanion a'ch camau. Bwriad y rhan hon o'r cyngor hwn yw rhoi syniadau i chi, gwybodaeth a chysylltiadau a allai helpu i ddangos sut yr ydych wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun Castell-nedd Port Talbot.

Buaswn yn eich cyngori i adeiladu ar ddatblygu rhyng-gysylltiadau rhwng themáu ac amcanion wrth gytuno ar, a chyflwyno eich camau i gwrdd â'r amcanion hyn. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut mae eich amcanion, yn unigol ac fel set, yn maccsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau llesiant ac nid yn unig wneud cysylltiadau â nifer llai o nodau llesiant lle mae cysylltiad clir ac uniongyrchol. Er enghraifft, ni allaf weld ar hyn o bryd gyfeiriad at lesiant economaidd Castell-nedd Port Talbot. Sut fydd ymadawiad Prydain o'r UE yn effeithio ar raglenni ariannu? Pa gyfleoedd sydd yna gyda Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd y rhanbarth? Ar gyfer pob un o'ch amcanion bydd angen i chi eu gosod yng nghyd-destun Castell-nedd Port Talbot, yn hytrach nag yn nhermau cyffredinol. Drwy archwilio cysylltiadau â'r holl nodau llesiant, byddwch nid yn unig yn ennill darlun mwy holistig o'r mater yr ydych yn ceisio ei ddatrys, ond medrwch hefyd facsimeiddio ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch fanteisio arnynt i'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau.

- ***Plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig blant sydd mewn perygl o gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.***

Rydych yn gywir wrth asesu bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac anawsterau yn fwy tebygol o gael llesiant gwael ymhellach ymlaen yn eu bywydau. Mae'r rhan fwyaf o FCGau wedi drafftio amcanion sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn, a hoffwn ddeall, wrth i gamau gael eu cymryd i gwrdd â'u hamcan, beth sy'n mynd i newid ar bob lefel i wneud i hyn ddigwydd? Sut fydd gwasanaethau ar gyfer rhieni a theuluoedd arfaethedig yn newid yng Nghastell-nedd Port Talbot i ddarparu i blant y cychwyn gorau mewn bywyd? Pa dystiolaeth leol fyddwch yn ei defnyddio i ddeall modelau gwasanaethau llwyddiannus ac ymyriadau ataliol sy'n gweithio? Sut fydd ffocysu, fel BGC, ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn arwain at welliant gwirionedd yn eich sefydliadau a'ch gwasanaethau? Mewnbyn pwy allai fod ei angen arnoch i ddeall hyn yn well? Pwy ddylai fod o gwmpas y bwrdd i wneud i hyn ddigwydd?

Ydych chi wedi ystyried tueddiadau hirdymor yr amcan hwn? Mae'r sefyllfaoedd economaidd-gymdeithasol cymhleth mewn llawer o gymunedau Cymru'n awgrymu nad yw teuluoedd yn derbyn y cymorth priodol ar yr

amser iawn, ac mae cylchoedd yn parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf. Mae costau'r cychwyn gwaethaf mewn bywyd yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. [Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#): (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Atal sydd wrth wraidd yr amcan hwn a buaswn yn cynghori eich sefydliadau i gydnabod bod atal canlyniadau gwael yn rhan o'u holl gyfrifoldebau. Wrth gwrs, mae'r amcan hwn yn ymwneud ag atal a chwalu'r cylch, sy'n berthnasol nid yn unig i blant sydd eto i gael eu geni ond y teuluoedd hynny sydd eisoes mewn angen a phobl ifanc sy'n debygol o ddod yn rhieni. Rwyf hefyd yn annog BGCau i feddwl am yr hyn a olyga'r amcan drafft hwn yng nghyd-destun y saith nod llesiant. Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar [y 1000 o ddiwrnodau cyntaf](#) yn dangos sut y gall buddsoddi ym mywyd plentyn o'r cychwyn cyntaf fod yn fanteisiol i'w llesiant yn gyffredinol.

Gwn eich bod wedi cychwyn cynllun treialu'n ymwneud â 'Chymuned Plant' yn ardal ward Sandfields West. Os mai dyma un o'ch camau i gwrdd â'ch amcan drafft, rhaid i chi ddangos y gwaith hwn fel rhan o'ch cynllun llesiant. Ar hyn o bryd, mae'r gweithgareddau drafft yr ydych wedi eu pennu ar gyfer cychwyn y cynllun peilot yn fusnes-fel-arfer. Nid ydynt yn y bôn yn herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Yma, mae angen i chi ddefnyddio eich dylanwad a chydweithio gyda'ch gilydd i wneud i newid ddigwydd. Fel y dywedais uchod, mae hyn yn golygu gweithredu - nid siarad am y ddarpariaeth bresennol.

Gall mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar le fod yn fanteisiol wrth ffocysu ymdrechion a chyfleoedd ariannu ar le daearyddol. Mae'n bwysig, felly, bod hyn yn mynd yn ehangach na ffocysu'n unig ar blant a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan y byddwch, yn anochel yn cael effaith ar y rhain os byddwch yn ffocysu eich dealltwriaeth ar yr ardal, eu hasedau a'i chyfyngiadau yn yr un modd ag y mae'r bobl sy'n byw yno yn ei wneud. Dylai'r ymagwedd hon ymwneud yn fwy ag integreiddio gwasanaethau a darparu cymorth ataliol i deuluoedd a phobl ifanc. Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i benderfynu ar ymagwedd dreialu yn y maes hwn? Fel y dywedais yn fy adborth i'ch asesiad llesiant, mae angen gwell eglurhad o amrywiaeth eich cymunedau arnoch - yn arbennig wrth i chi fynd ati i ddatblygu camau seiliedig ar le. Sut mae pobl Sandfields West wedi ymgyfrannu yn natblygiad yr ymagwedd hon? A ydynt yn gweld eu hunain fel cymuned neilltuol neu ai ffin etholaethol ffals yw hi? Sut mae asedau'r ardal wedi/neu'n mynd i gael eu harchwilio tu hwnt i'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n bodoli, am natur y gymuned yn ei hanfod? Mae'r [astudiaeth 'Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredegau](#) yn rhoi dystiolaeth o'r modd y mae dealltwriaeth o le yn medru bod yn fanteisiol iawn i lesiant ac mae adroddiad y Sefydliad Royal Town Planning, '[Poverty, Place and Inequality](#)', yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n egluro pam mae ymagweddau seiliedig ar le yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng ac o fewn cymunedau.

Mae'n rhaid i'r camau i gwrdd â'r amcan hwn fod yn llawer eangach na'r hyn y gall y blynyddoedd cynnar, addysg neu iechyd ei wneud. Mae eich asesiad llesiant yn amlygu bod tloedi plant yn effeithio ar oddeutu traean o blant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Darganfu'r [London School of Economics mewn adolygiad a wnaethpwyd](#)

[ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree yn 2013](#) bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref neu nodweddion rhieni. Ceir adlais o hyn o fewn eich cynllun drafft sy'n cyfeirio at y bwch mewn cyraeddiadau rhwng disgyblion o gartrefi incwm isel ac incwm uchel. Sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn.

Fel y cyfryw, mae'n amser i ni roi'r gorau i feddwl am feichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar fel mater sy'n ymwneud yn unig ag iechyd, ac archwilio'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer herio darpariaeth gwasanaethau cyfredol gan ddefnyddio'r amcan hwn fel ffocws a'r saith nod llesiant cenedlaethol fel canllaw. Mae plant yn byw mewn cymuned, sy'n byw o fewn cymunedau ac maent yn cyrchu nifer o wasanaethau. Fel yr ydych wedi cydnabod, mae llawer o ffactorau'n bodoli tu allan i iechyd teulu sy'n effeithio ar roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant. [Mae'r New Economics Foundation yn ei adroddiad 'Backing the Future'](#) yn amlygu sut mae gennym rôl yn y dasg o fynd i'r afael â llesiant materol ac amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac ysgolion - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol.

Gall tlodi, camdriniaeth, gwahaniaethu a ffurfiau eraill o anfanteision gael effeithiau parhaus ar lesiant plant a phobl ifanc gan effeithio'n ddifrifol ar eu tebygrwydd o sicrhau dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae cyfleoedd yn ystod plentyndod yn allweddol a'r ymyriadau cadarnhaol a roddir yn eu lle yn awr gan Gymru i amddiffyn a darparu ar gyfer plant yn helpu i sicrhau dyfodol mwy ffyniannus, iach a chydlynol i Gymru. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i gynghori y dylai cyrff cyhoeddus a BGCau roi mwy o ffocws ar hawliau a llesiant plant yn eu gwaith asesu parhaus a'u cynlluniau llesiant. Gall ffocysu ar hawliau plant helpu BGCau wrth iddynt ymgynghori, gwneud penderfyniadau a chynllunio eu rhaglenni. Byddai hyn yn cynnwys datblygu polisiau sy'n ffocysu ar hawliau plant, gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau. I gynorthwyo'r gwaith hwn, mae pecyn cymorth yn cael ei dreialu a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r swyddfa Comisiynydd Plant yn hapus i roi cyngor i chi ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd tuag at sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol sy'n talu sylw i hawliau plant.

Mae'r gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn rhoi i ni'r dystiolaeth sy'n dangos sut mae llesiant hirdymor plant yn cael ei effeithio gan ddigwyddiadau neu amgylchiadau yn ystod eu plentyndod. Mae mabwysiadu ymagwedd ataliol yn golygu symud adnoddau i fynd i'r afael ag achosion sydd wrth wraidd problemau. Er bod cael gweithluoedd sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac sy'n medru gweld yr arwyddion rhybudd a darparu peth cymorth yn bwysig, mae hyn yn mynd tu hwnt i hyn i gyd gan ei bod yn bwysig bod y gwasanaethau mae pobl yn eu cyrchu yn integredig, ac yn medru chwalu'r cylch. Fel BGC sy'n ffocysu ar y blynyddoedd cynnar, mae angen i chi adolygu mentrau sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau tai ac eraill, i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gydgyssylltiedig ac yn ymroi i wella amgylchiadau teuluoedd a rhieni'r dyfodol.

Fel gwasanaethau cyhoeddus rydym yn aml yn trin symptomau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, megis salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a chamdriniaeth ddomestig, yn hytrach na'r achosion sydd wrth eu gwraidd. Mae mabwysiadu ymagwedd ataliol yn golygu symud adnoddau i fynd i'r afael â materion craidd. Mae gennych gyfle i fabwysiadu'r ymagwedd ehangach hon yn eich cynllun peilot 'Cymuned Plant'. Gweithiodd Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad rhywbeth arall i'w wneud yw talu sylw i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn cyflwyno gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog lle gall BGCau rannu arfer, gan fod pob un o'r BGCau yng Nghymru, bron, wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, a rhoi i blant gychwyn da mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae fy nhîm wedi gwrandao ar adborth eich swyddogion cynorthwyo ac wedi gweithio gyda'r Gyfnewidfa Arfer Da i redeg [gweminar ar ddealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#) ar y 7fed Tachwedd, a allai fod o fudd i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn. Byddaf i ac Alyson Francis ar y panel a gellir gofyn cwestiynau i ni yn fyw.

Mae deall profiadau pobl sydd wedi profi trawma yn eu bywydau, drwy ennyn ymgyfraniad plant a'u teuluoedd wrth lunio gwasanaethau, hefyd yn rhoi persbectif ffres wrth lunio gwasanaethau ataliol. Ar hyn o bryd, yn aml iawn, nid yw ein gwasanaethau'n cael eu gosod mewn dull sy'n gwneud synnwyr i'r bobl sy'n eu derbyn. Rydym yn delio â phobl mewn categorïau twt 'defnyddwyr-gwasanaethau', megis 'dioddefwr camdriniaeth ddomestig', 'troseddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', 'un sy'n camddefnyddio sylweddau', 'tenant trafferthus', ac mae hyn yn aml yn creu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael cyfleoedd neu ganlyniadau cyfartal. Mae'r ffordd hon o weithio'n golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Yn aml nid ydym yn gallu gweld sut mae'n gwasanaethau yn anghyfartal yn y modd y maent wedi eu llunio a, sut mae'r bobl sydd mewn mwyaf o angen yn eu cyrchu yn y modd y sy'n ateb eu hanghenion.

Bwriad y pum dull o weithio yw herio'r modd yr ydym ar hyn o bryd yn gwneud pethau a rhoi lens wahanol fel gwasanaeth cyhoeddus cyflawn ar gyfer delio â phroblemau. Mae ennyn ymgyfraniad pobl i herio'r system yn ganolog, oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl y medrwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r enghraifft [hon 'Pam nad yw pobl yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor'](#) yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau a wynebwr gan bobl wrth iddynt geisio goresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos a [gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu'r ymagwedd holistig ac ataliol hon tuag at fywydau pobl. Bydd gweld pethau drwy bersbectif pobl eraill, o bob cefndir, yn eich helpu i gyfrannu i Gastell-nedd Port Talbot sy'n fwy cyfartal. Hoffwn eich gweld yn myfyrio ar hyn wrth ddatblygu camau i gwrdd â'r amcan hwn a threialu eich gwaith yn Sandfields West.

Mae'r rhan fwyaf o FGCau wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar a rhoi cychwyn da i blant mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn cynnwys Cwm Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Casnewydd a Chonwy/Sir Ddinbych.

- *(Creu) Cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, (gyda ffocws arbennig ar bobl sy'n agored i niwed).*

Mae eich asesiad llesiant yn amlygu bod pobl yn teimlo bod yna ysbryd cymunedol yng Nghastell-nedd Port a'u bod yn cysylltu eu llesiant â ffrindiau, teulu a chymuned dda. Fel y dywedais yn yr adborth i'ch asesiad llesiant, mae dehongli'r gwahaniaethau gofodol rhwng gwahanol gymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn bwysig ar gyfer deall lle gall gwasanaethau cymdeithasol fod o'r defnydd mwyaf. Gwn eich bod hefyd yn ystyried effaith gweithio'n rhanbarthol - drwy Tasglu ar gyfer y Cymoedd; Dinas Ranbarthau Abertawe a Chaerdydd ac olion traed rhanbarthol, megis Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n bwysig i gofio y gallwch ddylanwadu ar eich gilydd ac ar yr hyn sy'n digwydd yn lleol, yn ogystal ag edrych i'r tu allan a dylanwadu ar y pethau eraill sy'n digwydd yn rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, wrth fynd i'r afael â'r amcan hwn, sut fyddwch chi'n rhoi pwysau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gymryd camau i gwrdd ag ef? Gyda'ch gilydd, pa sgysiau ydych chi'n eu cael gyda Phartneriaethau Bargeinion Dinas Abertawe a Chaerdydd i drafod y manteision posibl i Gastell-nedd Port Talbot?

Er bod yr amcan hwn yn rhyng-gysylltu â'ch tri amcan drafft arall, teimlaf ei bod yn bwysig iawn eich bod yn twrio'n ddyfnach i mewn i'r data yn y fan hon a deall yr hyn yr ydych yn ceisio effeithio arno. Gall bregusrwydd olygu llawer o bethau, a gwn fod fy nhîm eisoes wedi eich cynghori i ymroi, gymaint ag y gallwch, i gynllunio gydag ymagwedd seiliedig ar asedau, sy'n ceisio lleihau bregusrwydd drwy eich amcanion a'ch camau drafft.

Fel y dywedais mewn ymateb i'ch asesiad, i ba raddau ydych chi wedi edrych ar gryfder y sector cymunedol yn y gwaith o gefnogi llesiant cymdeithasol, natur rhwydweithiau cymdeithasol, ffabrig cymdeithasol trefi a phentrefi? Sut fedr bywiogrwydd diwylliant sy'n ymwneud â'r celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwyllianol, bwyd a diodydd lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli eich helpu i gysylltu cymunedau â'i gilydd? Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi ennyn ymgyfraniad pobl wrth weithredu i gwrdd â'r amcan hwn. Gwrandewch ar yr hyn mae pobl wedi ei ddweud wrthyf am eu cymunedau a chydweithwch i ddod o hyd i atebion gan ddefnyddio'r saith dull o weithio. Buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a gall [Participation Cymru \(Cyfranogaeth Cymru\)](#) gynorthwyo eich swyddogion wrth iddynt ennill sgiliau hollbwysig ar gyfer ymgyfrannu'n effeithiol ac ystyrlon. Gallai Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru eich helpu i adnabod ac ymgysylltu ag arweinyddion cymunedau.

Fel arweinwyr asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o hybu a chynorthwyo cydlynid cymunedol, o gofio eich rôl mewn arweinyddiaeth a chynorthwyo cymunedau, a'ch rôl mewn adeiladu gallu cymunedol drwy, er enghraifft, hwyluso rhwydweithio a chydweithio, a darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol a chyflogwyr. Mae'r ymchwil a ddogfennwyd yn [What Works in Community Cohesion](#) yn rhoi cyfeiriad defnyddiol i FGCau ar wahanol ddimensiynau cydlynid cymunedol. Gofynnwch i chi eich hunain a ydyw'r ddarpariaeth gyfredol yn briodol ar gyfer rheoli bregusrwydd sydd ar gynydd? Ydyw'r materion hyn ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n ddigonol ac ym mha feysydd y gallai bod angen gweithredu mwy ar y cyd neu weithredu ataliol? Pa effaith gaiff canfyddiad pobl o ddiogelwch ar eu gallu i gyrchu gwasanaethau neu chwarae rôl weithgar

yn eu cymunedau? Sut mae lefelau gwirfoddoli'n gwahaniaethu ar draws y sir? Faint mae pobl yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC?

Buaswn yn eich cyngori i gymryd camau ar unwaith tuag integreiddio gwasanaethu'n well, cydleoli timau, crynhoi adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'ch cymunedau. Mae rhai pobl yn cyrchu llawer o wasanaethau a byddai integreiddio'r darpariaethau hyn yn well yn eu helpu i helpu eu hunain. Mae'r syniad o 'ganolfannau cymunedol' yn dod yn fwy eang ac mae enghreifftiau megis y [Bromley by Bow Centre](#) yn Nwyrain Llundain, [Leeds Neighbourhood Networks](#), a [Solva Care](#) yn dangos mentrau arloesol sy'n ffocysu ar y gymuned yn gyntaf ac sy'n integreiddio gwasanaethau i wella llesiant. Mae gan y trydydd sector hefyd wybodaeth ddefnyddiol ar gysylltu pobl â gweithgareddau a gwasanaethau lleol yn eu hardal a'u helpu i gadw'n weithgar ac iach. [Cynhyrchodd y CGGC \(WCVA\) wybodaeth ehangach](#) ar sut mae'r trydydd sector yn chwarae rôl yn y gwaith o gyfrannu i'r saith nod llesiant.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, eu teulu neu'r man lle maent yn treulio amser, ac yn aml gall hyn arwain at ganlyniadau llawer mwy fel y dengys y gwaith a wneir [gan 'Nurture Development' ar Ddatblygu Cymuned sy'n seiliedig ar Asedau](#). Ydych chi hefyd wedi ystyried sut y gallech gysylltu â phobl yn y dyfodol? Pa fath o newidiadau y gellid bod angen eu gwneud i systemau sefydliadol a pholisïau i alluogi pobl i gyfranogi ymhellach mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol? Ar hyn o bryd, dengys ymchwil bod plant rhwng 5 a 16 mlwydd oed yn gwario, ar gyfartaledd, chwe awr a hanner o flaen sgrîn yn ddyddiol; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol](#) fel eu prif ffynhonnell newyddion; [43% o bobl a anwyd rhwng 1980 a dechrau'r 2000au yn cael eu gyrru i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol](#). Er bod rhai pobl ar hyn o bryd heb fod ar-lein, a bod angen amlwg am ymagwedd wedi ei theilwra, mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y dull sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, yn hytrach na bod yn dasg ychwanegol iddynt. Mae ["Sir Fynwy Agored"](#) yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Byddai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, yn medru eich helpu i rannu eu gwybodaeth gyda chi ar sefydlu'r wefan hon.

Gall bregusrwydd olygu llawer o bethau, a nodwyd yn eich amcan drafft cyntaf a'r trydydd. Er enghraifft, dengys eich asesiad sut mae gan iechyd meddwl gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau, materion tai, canlyniadau plant mewn bywyd a llawer agwedd arall ar lesiant. Mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed, a llawer pan fyddant yn llawer ieuengach. Os ydy'r symptomau'n bodoli pan fydd plentyn mor ifanc, beth ellir ei wneud i atal problemau nes ymlaen mewn bywyd? Os gwyddom fod y GIG ar gyfartaledd yn gwario dros £21 miliwn ar bresgripsiynau gwrth-iselder, sut fedrwn ni weithredu'n gynt? Mae [Caerdydd wedi treialu gwersi iechyd meddwl i blant](#) ac mae adroddiad newydd oddi wrth ResPublica a Barnado: [Making young minds matter](#) yn amlinellu ymyriadau cynnar (megis cwnsela yn yr ysgol yng Nghymru) a fedr gael effaith cadarnhaol ar iechyd meddwl. Buaswn yn eich cyngori i ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc yn y broses o ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyrchu'r gofal a'r cymorth priodol, dylunio gwahanol wasanaethau a gwerthuso effeithiau'r ymagwedd hon.

Mae nifer o FGCau yn drafftio amcanion i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol cryf, i gyflwyno newid mewn ymddygiad, datblygu cysylltedd cymunedau a diogelwch yn cynnwys Bro Morgannwg, Casnewydd, Powys, Cwm Taf, a Sir Fynwy.

- ***Heneiddio'n dda***

Gwn eich bod wedi cychwyn ystyried sut y gallwch gydweithio'n well fel sefydliadau i gwrdd â'r galw cynyddol o du poblogaeth hŷn, sy'n debygol o barhau i mewn i'r dyfodol. Cefais fy nghalonogi i weld hefyd eich bod yn cydnabod bod pobl hŷn yn ased – sy'n cyfrannu i'r economi, yn darparu gofal di-dâl, sgiliau a gwirfoddoli. Mae gwaith [Comisiynydd Pobl Hŷn](#) yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer archwilio'r camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn ac mae'n cynnwys eu harweiniad diweddar i FGCau. Nawr bod gennych amcanion drafft ac yn ystyried eich ymateb, buaswn yn eich cynghori i dwrio'n ddyfnach i mewn i'r data ac, megis gyda'ch amcanion eraill, yn rhoi pwysau ar bartneriaethau eraill sy'n gweithio yn y maes hwn i integreiddio eu gwaith gyda'r BGC. Meddylwch yn wahanol am y modd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd ar eich holl amcanion. Ar hyn o bryd, busnes-fel-arfer yw eich ymateb i'r amcan hwn hefyd - rwy'n dymuno gweld BGCau mewn gofod lle mae'n 'ddiogel i fethu', yn mynd allan a rhoi cynnig ar bethau newydd yn hytrach na siarad am fentrau sydd eisoes yn bodoli mewn stafelloedd cyfarfodydd Cyngor. Gwnaeth clywed bod rhai ohonoch wedi ysgwyddo arweiniad strategol am amcanion argraff arnaf, hyd yn oed pan nad oeddent o fewn eich arbenigedd penodol a bod hyn yn dod â phersbectif ffres i'r dadansoddiad o'r ymateb. Buaswn yn eich annog i barhau gyda hyn a'ch bod yn cael gwared â rhwystrau artiffisial sefydliadol i wybodaeth broffesiynol er mwyn cydweithio i ddarganfod datrysiadau arloesol.

Fel y cyfryw, sut ydych chi'n ystyried eich rolau eich hunan wrth ymateb i'r newid demograffig? Rwy'n awyddus i weld BGCau yn edrych ar ymagweddau ataliol seiliedig ar asedau tuag at eu hamcanion drafft. Ar hyn bryd prin fod gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau ieched yn delio â'r galw presennol ac, yn anffodus, mae llawer yn edrych ar ddulliau traddodiadol o ddelio â hyn. Dyma lle dylai'r pum dull o weithio fod yn herio eich dull o feddwl, a bydd gennyf ddiddordeb i weld sut y byddwch yn dylanwadu ac yn rhoi pwysau ar Wasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Llesiant Rhanbarthol wrth gyflwyno eich ymateb i'ch amcanion. Mae'r adroddiad hwn gan Young Foundation yn rhoi ysbrydoliaeth ar 'Arloesi ffyrdd gwell o fyw yn hwyr mewn bywyd' gan herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg cyfeillgar i oed atal pobl rhag bod mewn angen gofal cymdeithasol, rhag cael eu hynysu, rhag dioddef afiechyd neu gael damwain yn eu cartrefi.

Mae [Ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru'n](#) awgrymu bod unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn ymwneud â faint o gysylltiad sydd rhyngddynt â'u cymunedau'n gorfforol, ac â'r teimlad bod ganddynt rywbeth i'w gyfrannu i'w cymdeithas, sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol. Er nad yw technoleg yn mynd i ddatrys arwahanrwydd, meddylwch am yr effaith hirdymor a fedrai gael ar ein poblogaeth. Pobl hŷn yfory yw pobl ieuengach heddiw, â ganddynt lawer mwy o sgiliau technolegol ar flaenau eu bysedd. Yn ein heconomi sy'n

rhannu, a allai fod yna atebion rownd y gongl ym maes cronfeydd ceir, neu drafnidiaeth gymunedol wedi eu cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol? Sut fedr technoleg helpu pobl hŷn i deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi? Hefyd mae yna eisoes enghreifftiau o drôns yn darparu cyflenwadau meddygol, a galwadau fideo yn disodli apwyntiadau gydag ymarferydd cyffredinol, ynghyd â dosbarthiadau rhithwir. Mae'r cysyniad o 'Hyperbentref' a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, sy'n annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg. Sut ydych chi wedi meddwl am y posibiladau hirdymor o fanteisio ar dechnoleg i ddatrys y mater hwn?

Mae gennych rôl mewn cynllunio, tai, a thrawsgludo, ac mewn creu lleoedd sy'n addasadwy ac yn medru newid, o leiaf dros y ddwy genhedlaeth nesaf. Mae gan Gymru gyfle i ddatblygu tai sy'n cwrdd yn well â newid demograffig, gan addasu technoleg i alluogi pobl i fyw yn annibynnol am amser hwy. Mae [Llywodraeth Cymru wedi lansio cronfa £20 miliwn i ariannu tai arloesol](#). Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y gronfa hon yn cynorthwyo cyflenwad tai fforddiadwy a hefyd welliannau yn ansawdd y tai a gaiff eu darparu. Dylai BGCau fod yn ymroi i ddylanwadu ar y modd y caiff y gronfa hon ei defnyddio a deall yr effaith a gaiff ar Gymru i drwytho eu camau hirdymor ar dai. Mae rhaglenni fel Dinasoedd Cyfeillgar i [Oed Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi annog a chydnabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed gan addasu adeiladau, cynlluniau trafnidiaeth a rheolau cynllunio, sy'n galluogi pobl hŷn i gadw'n iach ac mewn cysylltiad â phethau sydd o bwys iddynt am amser hwy; mae [Laguna Woods](#), y ddinas gyntaf yn yr UE sydd wedi ei neilltuo i bobl hŷn a maestrefi Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddylunio sy'n addas ar gyfer galluoedd lluosog. Yn ogystal â chyfrifoldebau'n ymwneud â chynllunio a seilwaith dylunio, mae yna nifer o brosiectau arloesol byd-eang sy'n annog tai preifat sy'n rhannu cyfleusterau, tai a gefnogir, a chartrefi sy'n cael eu rhannu. [Mae myfyrwyr yn byw heb dalu rhent mewn cartrefi gofal](#) mewn cyfnewid am gymdeithasu a darparu gofal sylfaenol i'r trigolion hŷn; mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau Rhannu Cartref](#), ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth, mae'r [Almaen](#) wedi cyflwyno tai rhyng-genhedlaeth i bobl hŷn a theuluoedd ifanc mewn angen. Yn Singapore, rhoddir grant o \$50,000 i bobl ifanc os yr ydynt yn barod i symud i fyw o fewn 1 cilomedr i'w neiniau a'u teidiau. Mae'r rhain i gyd yn gamau arloesol effeithiol, a gyda nifer o bobl hŷn yn cynyddu ar ras, beth yw canlyniadau gwneud dim byd?

Mae hyn yn dangos cysylltiad hanfodol rhwng amgylchedd eich cymuned â'ch llesiant. Fel y dywed ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru, mae arwahanrwydd yn ymwneud llawn cymaint â bod ar ben eich hunan yn gorfforol ag ydyw â theimlo eich bod yn rhan o rywbeth. Awgrymir gan ymchwil mai dim ond 5% o bobl dros 65 mlwydd oed sydd â chysylltiad o unrhyw fath â phobl ifancach. Mae prosiectau rhyng-genedlaethau yn dangos eu bod yn fanteisiol i bobl ifanc a hen, gyda phobl ifanc a hŷn yn mabwysiadu rôl y mentor. Sut fedr wch chi gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd? Sut fedr cynnydd mewn ymgyfraniad wella iechyd pobl hŷn yn eich ardal? Mae adroddiad diweddar gan ['Health and Wellbeing in Rural Areas'](#) a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn amlygu materion yn ymwneud â chefn gwlad yn Lloegr, ond hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos, megis y prosiect Fish Well yn Norfolk, sy'n anelu at wella iechyd a llesiant pobl yn yr ardaloedd lleol hyn. Mae [Cyngor Cymuned Solfach](#) yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hŷn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella

llesiant. Mewn rhai manau o Gymru, mae'r trydydd sector yn gweithredu fel cysylltwyr cymunedol (sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Gofal Canolraddol) i helpu pobl sy'n agored i niwed o bob oed i gael mynediad i bethau yn eu cymunedau, gan atal yr angen am wasanaethau statudol. Mae yna rai enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnherthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis [Siediau Dynion Cymru](#), sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo.

Mae parhau i ddysgu drwy gydol oes wedi profi i fod yn fanteisiol i lesiant iechyd meddwl a chorfforol pobl, yn ogystal â llesiant cymdeithasol. Mae yna gyfle gwirioneddol yma i chi ystyried sut i facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau llesiant. Sut fedrwch chi annog gweithgareddau sy'n hybu celf, diwylliant, dysgu'r iaith Gymraeg, gofalu am gynefinoedd naturiol, creu mentrau tyfu bwyd cymunedol, er enghraifft, sy'n helpu gyda llesiant pobl? Gan edrych i'r hirdymor, sut fedr y gweithgareddau hyn atal rhai achosion o afiechyd - rhai y gellid eu hatal - a ddiodeffir gan bobl ac sy'n amharu ar eu hannibyniaeth? Eto, gallai cydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus sydd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf eich helpu gyda hyn; os gwelwch yn dda gadewch i fy nhîm wybod os hoffech gysylltu ag unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn.

BGCau eraill ag amcanion tebyg yw Conwy/Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Caerdydd, Ynys Môn a Gwynedd a Chasnewydd.

- ***Llesiant drwy gyfrwng y gweithle.***

Rwyf wedi cyngori pob BGC bod newid yn cychwyn gyda nhw a'u sefydliadau; felly rwy'n falch i weld eich bod yn ystyried sut y gallwch gael effaith ar lesiant eich cyflogaeth. Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydych yn cyflogi cyfran arwyddocaol o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot a bydd gan lawer o'ch gweithwyr deuluoedd sydd hefyd yn byw yn yr ardal. Rwy'n eich cyngori i gychwyn gyda'r saith maes sy'n gofyn am newid yn y Ddeddf i'ch helpu i feddwl am ba effaith y gallwch ei gael: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau a rheoli perfformiad a risg yw'r gweithgareddau cyfundrefnol creiddiol lle byddai cymhwyso'r pum dull o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut yr ydych yn gweithio. Buaswn hefyd yn eich cyngori i werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael ar sefydliadau eraill. Yn gyffredinol, buaswn yn cyngori eich bod, fel arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus, yn ystyried sut y gallwch weithredu i gwrdd â'r amcan hwn a macsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant. Bydd angen i chi fod yn glir am y modd yr ydych wedi myfyrio ar y diffiniadau o bob un o'r nodau llesiant.

Mae yna nifer o ddulliau gwahanol o gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn ac enghreifftiau ar draws y byd o ymagweddau arloesol. Mae nid yn unig yn gwneud synnwyr ariannol (mae afiechyd sy'n berthnasol i'r gweithle yng Nghymru yn costio o leiaf £500m y flwyddyn) ond mae'n gwella llesiant trigolion Castell-nedd Port Talbot. Mae'r [Sunday Times yn cyhoeddi rhestr flynyddol o'r 100 cwmni gorau](#); ac yn medru asesu pa rai sydd orau am sicrhau 'llesiant' ac mae gwledydd fel Sweden yn uwch ar y rhestr na Phrydain am sicrhau bod eu staff yn iach ac yn gweithio i eithaf eu gallu. Yn nes adre, mae cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd, ['Cymru Iach ar Waith'](#) yn llawn o adnoddau a chanllawiau i'ch helpu i greu gweithlu iach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu [Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd Cenedlaethol](#) i gydlynu eu gwaith hwy

eu hunain o gwmpas y Ddeddf, a thrwy eich cynrychiolydd BGC, gallech ddarganfod ei bod yn ddefnyddiol i gysylltu â'r tîm cenedlaethol am ragor o dystiolaeth a gwybodaeth.

Awgryma dystiolaeth bod galluogi pobl i wneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â'u statws economaidd, eu hamgylchedd a sut y maent yn cysylltu ag eraill. Rydych wedi nodi yn dilyn eich ymgysylltu â phobl, eu bod o'r farn bod gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig i lesiant. Mae dewis yn aml yn 'glynau' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu'r adroddiad [Nudjed 'Behaviour Change is a Team Sport'](#) bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i ennyn eu hymgyfraniad mewn gweithgareddau mwy corfforol. Sut mae hyn yn berthnasol i'ch amcanion eraill a'ch themâu lefel uchel? A fedr gweithgareddau fynd i'r afael â chydnerthedd cymunedol ac arwahanrwydd ac unigrwydd a helpu pobl i fyw bywydau iachach?

Sut fedr gwella'r amgylchedd naturiol hefyd helpu i reoli eu hiechyd? Fel yr ydych wedi cydnabod, mae'n siŵr, mae yna gyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt i ddatblygu ymagwedd sy'n cwmpasu'r sir gyfan. Mae [prosiect Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru](#) yn enghraifft o gael pobl i fynd allan i'r awyr agored, i amddiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Sut fedrwyd chi ennyn ymgyfraniad 'rhai anarferol' wrth i chi archwilio'r camau i gwrdd â'r amcan hwn? Sut ellir grymuso'r trydydd sector a'u hysbrydoli i helpu? Mae'r astudiaeth hon [ar bresgreibio cymdeithasol ym Mryste](#), yn rhoi gwybodaeth ar wahanol fodolau ac yn rhoi peth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd corfforol cyffredinol. Mae'r rhaglen ddogfen ddiweddar a ddarlledwyd gan y BBC, ['The doctor who gave up drugs'](#), yn dangos nifer o enghreifftiau o'r modd y gall ymagweddau amgen i bresgreibio meddyginiaethau gael effaith cadarnhaol mwy holistig a pharhaus ar fywyd rhywun - gyda phobl yn dod yn fwy fit yn gorfforol ac yn iachach yn feddylol heb orfod dibynnu ar bresgripsiynau.

Bydd cydweithio gyda'r 'bobl anarferol' ac ennyn ymgyfraniad pobl yn y modd yr ydych yn cymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn yn eich galluogi i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant. Er enghraifft, beth yw rôl diwylliant yn y dasg o alluogi plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut fedr pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i helpu i adeiladu eu hyder a'u gallu?

[Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n](#) amlinellu rhai o'r manteision iechyd, cydlynad a sgiliau i'r boblogaeth sy'n deillio o weithgareddau creadigol. Mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol i ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Gall y bydd cydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn eich helpu i weld sut y gallai eich camau i gwrdd â'r amcan hwn eich helpu i facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau. Gall deall sut i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cymunedau hefyd wella teimladau o berthyn, cydlynad a lleihau arwahanrwydd. Mae tîm Comisiynydd yr iaith Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda ni ar y dull gorau o gynorthwyo BGCau i gyfrannu i ['Cymraeg 2050'](#)

Mae BGCau eraill sy'n ymroi i wella iechyd a gwella atal yn cynnwys Blaenau Gwent; Ceredigion; Ynys Môn and Gwynedd.

- ***Adnabod a hybu rôl seilwaith gwyrdd i gynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pobl Castell-nedd Port Talbot.***

Mae seilwaith gwyrdd a glas Castell-nedd Port Talbot yn cael ei werthfawrogi'n fawr a gydag afonydd, mannau agored gwyrdd, coedwigoedd a pharciau, mae'n ased mawr i chi. Rwy'n falch i glywed bod eich templed ymateb cychwynnol wedi cydnabod y manteision niferus o gael amgylchedd naturiol o ansawdd da, ei rôl economaidd bwysig drwy ddatblygiad twristiaeth a seilwaith yn ogystal â lleddfu effeithiau tywydd eithafol a'r newid yn yr hinsawdd. Mae yna lawer o gyfleoedd i'w gwireddi wrth ddathlu amgylchedd naturiol Castell-nedd Port Talbot, ond hefyd beryglon ar ffurf tywydd eithafol, colli cynefin a bioamrywiaeth.

Fel y cynghorwyd eisoes gan fy nhîm, mae'r newid a ofynnwyd amdano gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cychwyn gyda chi a'ch dulliau chi eich hunain o weithio. Fel sy'n wir am eich holl amcanion, buaswn yn eich cynghori'n bendant iawn i ystyried sut mae eich polisïau chi eich hunan a'ch gweithleoedd yn cyfrannu tuag at gyflawni eich cynllun. Cefais fy nghalonogi i weld eich bod yn ystyried llesiant yn y gweithle, fel cyflogydd nifer mawr o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gydag addysg uwch yn cael ei chynrychioli ar eich Bwrdd a Chynghorau Tref a Chymuned, sut fedrwch chi ennyn ymgyfraniad myfyrwyr, aelodau o'r gymuned a pherchnogion busnes yn eich polisïau llesiant? Sut fedr hyn gysylltu â seilwaith gwyrdd a'r amgylchedd naturiol?

Buaswn yn eich cynghori i feddwl am eich rolau chi eich hunain yn y dasg o amddiffyn yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, y bydd angen iddynt fod yn glir yn y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Meddyliwch am y saith swyddogaeth gorfforaethol a amlinellir yn y Ddeddf; er enghraifft, mae gennych lawer o eiddo cyhoeddus. Sut fedrwch chi gynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol) mewn ffordd sy'n cyfrannu i Gymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang, a Chymru gydnerth? Dylech archwilio pa weithredu pendant y gallwch ei gyflawni, megis sut yr ydych yn ailwampio adeiladau, yn gwella seilwaith a lleoli mannau agored cyhoeddus, a fedr gael effaith cadarnhaol ar lesiant. Mae'r adroddiad ['Closing the Circle'](#) ar yr economi cylchol ac 'Amgylchedd Cymru' a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, yn ddefnyddiol. Mae'n dangos cyfle economaidd posibl i greu £1biliwn y flwyddyn erbyn 2035 drwy ddefnydd ymarferol o egwyddorion economaidd cylchol a rhoi enghreifftiau ymarferol lle gall y sector cyhoeddus liniaru gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Mae hwn yn gynydd o 12% yn nhrosiant sector yr amgylchedd adeiledig Cymreig ac mae'n cynhyrchu 7,300 o swyddi (gros). Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng [Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd](#), megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol i chi fel BGC.

Beth fedrwch chi ei wneud, fel Prif Weithredwr, Cadeirydd neu Arweinydd, yn awr i liniaru effeithiau colli ein hamgylchedd a bod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang? Mae ansawdd aer o bryder arbennig i'ch sir, yn bennaf oherwydd y gweithfeydd dur a lefelau trafniadaeth. Mae'n galonogol i glywed bod lefelau wedi gwella yn y blynyddoedd

diwethaf, ond mae'n rhaid i chi feddwl am effeithiau hirdymor hyn ar genedlaethau'r dyfodol. Er mai cymharol isel yw maint yr allyriadau y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol amdano, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n llawer ehangach ar allyriadau mewn meysydd megis trafndiaeth, ynni, y defnydd o dir a chaffael. [Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lefelau allyriadau carbon](#) wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar yn 9fed Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru: i archwilio sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n medru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau carbon hirdymor eu gweithrediadau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu hyd yn oed ymhellach.

Mae'r DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon yn gyfangwbl erbyn 2050 ac mae pob un o Lywodraethau Cymru wedi addo creu rhagor o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad '[Dyfodol Ynni Clyfar i Gymru](#)' gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu'r adroddiad '[A Smart Energy Future for Rural Areas](#)' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Efallai y gall [seminar](#) Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru roi i chi fewnwelediadau arbenigwyr ynni yng Nghymru ac y bydd eu syniadau am ddyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn ddefnyddiol i chi. Mae prif seminar [Fforwm Polisi Cymru](#) i'w chynnal ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'r sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Mae hwn yn gyfle i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant a chreu rhyng-gysylltiad rhwng eich amcanion. Mae [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#), yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol profedig, pendant a chost-effeithiol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, yn macsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac ymddengys ei fod wedi gwella'n arwyddocaol adferiad cleifion. Ym mhob un o'r meysydd hyn gall fy swyddfa eich cysylltu â'r bobl a'r sefydliadau hyn a allai eich helpu wrth i chi ddatblygu eich gwaith.

Mae llawer o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn dibynnu ar eu hamgylchedd am incwm, bwyd, dŵr, a hamdden. Yn y dyfodol mae'r newidiadau yn yr hinsawdd yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio a hyn yn effeithio yn ei dro ar amaeth. Sut ydych chi'n ystyried effaith economaidd posibl y newid yn yr hinsawdd? Os ydych chi'n gobeithio defnyddio eich adnoddau naturiol ar gyfer ennill mantais economaidd, sut ydych chi wedi ystyried effaith hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol ar yr adnoddau hyn? Sut fedrwc chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa weithredu ataliol y gallwch chi ei fabwysiadu i amddiffyn amaeth, cyflenwadau dŵr a thrawsgludo adeg digwyddiad tywydd eithafol? Mae adroddiad diweddar '[Zero Carbon Britain's recent 'Making it Happen'](#)' yn nodi i ba raddau yr ydym yn gyfrifol am genedlaethau'r dyfodol parthed gweithredu nawr ar y newid yn yr hinsawdd.

Rwy'n gofyn i chi ddangos ystyriaeth o effeithiau hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol a fydd yn creu peryglon arbennig i'ch ardal. Rwy'n eich annog i ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd ar Gastell-nedd Port Talbot, fel ardal â ganddi nawr ardal gymunedau sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd. Llynedd effeithiodd llifogydd ar gartrefi a busnesau mewn nifer o siroedd a diodeffodd Port Talbot, Castell-nedd a Baglan lifogydd eithafol chwe blynedd yn ôl. Mae asesiadau llesiant yn dangos sut mae llifogydd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl am amser maith yn dilyn y digwyddiad, gyda'r bobl mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn diodeff niwed. [Amcangyfrifir y bydd niwed blynyddol i eiddo preswyl yn £22 miliwn](#), felly, mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar wahanol gymunedau daearyddol a demograffig yn hollbwysig cyn y gellir ei atal.

Gall ennyn ymgyfraniad pobl yn y gwaith o redeg eu cymunedau hefyd gael effaith cadarnhaol ar helpu i wneud yr amgylchedd lleol yn fwy cydnerth. Mae gan [NESTA ganllaw](#) ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd' lle newidiodd pobl eu ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hól troed carbon. Mae prosiectau megis '[GlawLif' Dŵr Cymru](#) yn awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd. Mae enghraifft eithafol yn cynnwys [Ynys Eigg yn yr Alban](#), lle mae'r gymuned yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gyflwyno a gofalu am gynlluniau ynni cymunedol adnewyddiadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn amlwg yn cychwyn drwy helpu pobl i ennill hyder a gwybodaeth wrth gyrchu eu hamgylchedd lleol. Yn gysylltiedig â'ch amcanion cynharaf, mae ennyn pobl i ymgyfrannu mewn lle neu achos lleol yn medru bod yn bwerus iawn. Mae prosiect [Coed Lleol Actif Cyfoeth Naturiol Cymru](#) yn enghraifft o gael pobl allan i'r awyr agored, i amddiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant ac, yn anad dim mae 'presgreibio cymdeithasol' yn dod yn fwy cyffredin ar gyfer trin cyflyrau iechyd? Sut fedrwn chi ennyn ymgyfraniad 'rhai anarferol' eraill wrth archwilio'r gweithredu sydd ei angen ar gyfer cwrdd â'r amcan hwn?

Er enghraifft ydych chi wedi nodi sut mae trefoli a diwydiant yn niweidio cynefinoedd naturiol y sir. Bydd cydweithio gyda busnesau wrth i chi benderfynu ar eich camau i gwrdd â'r amcan hwn yn bwysig ar gyfer amddiffyn a gwella'r tir ac atal dirywiad bioamrywiaeth. Ar gyfer pob un o'r camau hyn defnyddiwyd y diffiniadau o nodau llesiant wrth feddwl sut y gallwch wneud rhywbeth gwahanol gan gael yr effaith mwyaf posibl, ynghyd ag integreiddiad ar draws llawer o'ch camau drafft. Er enghraifft, sut fedrwn chi alluogi cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol sy'n ymroi i wella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol? Pa gynlluniau gwirfoddoli fedrech chi eu helpu i greu Castell-nedd Port Talbot i fod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang? Sut fedr pobl annog cyfartaledd drwy eu gwirfoddoli a chydlynid o fewn rhai o'ch cymunedau. Mae gan [Busnes yn y Gymuned](#) ystod o ddulliau ymarferol ar gyfer busnesau ar sut i gydweithio a gweithredu i helpu i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chymdeithasol allweddol sy'n wynebu cymdeithas.

Mae'n beth cadarnhaol bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer twristiaeth hefyd, gyda dros 2 filiwn o dwristiaid llynedd yn ymweld â'r sir. Mae gen i ddiddordeb yn y modd yr ydych yn annog twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru, efallai drwy weithio'n fwy rhanbarthol i gysylltu asedau amgylcheddol ffantastig, megis coedwigoedd, parciau, safleoedd o ddiddordeb arbennig ynghyd â chyfleoedd teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus ac, ar yr un pryd, fod o fantais i fusnes lleol? Mae hyn yn golygu cynllunio sy'n ffocysu ar sail lle a ffocws ehangach ar



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

lesiant amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardal - yn hytrach nag elw economaidd yn unig. O safbwynt ansawdd aer gwael yn rhai rhannau o'ch sir, sut fedrwch chi wrando'n well ar awydd pobl i ddefnyddio'u ceir yn hytrach na rhyw ddull arall o deithio? Mae rhai BGCau yn cyflwyno pwyntiau gwefru trydanol a chronfeydd ceir trydan i'w sefydliadau i annog pobl i newid eu harferion. Ystyriwch sut y gallwch weithredu'n ymarferol yn awr er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae yna lawer o FGCau sy'n ymroi i amddiffyn eu hamgylchedd ac ymgymryd â gwaith pellach i ddeall y peryglon i'w cymunedau, yn cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Bro Morgannwg, Powys, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maximeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthydych chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Ceredigion ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,

Sophie Howe



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales